Galwad am syniadau Hansh

Mae S4C yn chwilio am syniadau newydd am gynnwys i gyhoeddi ar Hansh. Rydym eisiau cynnwys bydd yn ysbrydoli, rhyfeddu a chodi gwen. Cyfresi ffurf ganolig mentrus a chyfoes, i gyhoeddi ar YouTube Hansh

Rydym yn chwilio am syniadau creadigol ar gyfer cyfresi o fideos cylchol (looping) ar gyfer YouTube, wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd ifanc.

Dylai'r cynnwys ganolbwyntio ar greu awyrgylch – er enghraifft:

- Tirweddau breuddwydiol (dreamscapes)
- Fideos astudio a chanolbwyntio
- Cerddoriaeth gefndirol ysgafn
- Y teimlad o "gerddoriaeth yn chwarae mewn ystafell arall"
- Teimlad o gynnwys Cymreig sy'n wahanol i beth sydd ar gael yn barod
- Cynnwys Hansh, sut i blethu gwynebau Hansh ac ymdeimlad o ledaenu brand

Dylai'r syniadau greu profiad ymdrochol (immersive), tawel a chysurus, sy'n helpu pobl i ymlacio, astudio neu ganolbwyntio dros gyfnod hir.

Rydym yn agored i syniadau gweledol a chlywedol unigryw sy'n apelio at gynulleidfaoedd digidol ifanc, ac sy'n addas ar gyfer YouTube.

Rydym yn awyddus i glywed syniadau ac yn agored i drafod hydoedd, ond disgwylir oleia pedwar fideo i gael eu cynnwys yn rhan o'r pecyn.

Bydd angen i bob pitch fod ar ffurf 'deck slide' gan gynnwys:

- Teitl cryf a chlir ( Dim teitl, dim comisiwn)
- Strapline un llinell
- Syniad pendant o naws ac arddull. Pwy yw eich dylanwadau? Rhowch enghreifftiau a delweddau / fideo / moodboard
- Ychydig o wybodaeth am y tim creadigol allweddol a'ch profiad dogfen / dolenni i waith blaenorol
- Wrth ymgeisio dylid ystyried oblygiadau cytundebol ar y cynnwys fydd yn byw yn ddigyfyngiad ar YouTube

**Cyllideb**

Yn ddibynnol ar y cynnwys, rydym yn edrych ar gomisiynu pedwar fideo, pum munud yr un o gynnwys gwreiddiol, bydd yn cael eu chwarae ar lwp i greu pedwar fideo awr o hyd. Gwerth y pecyn hyd at £30,000

**Sut i gyflwyno syniad?**

Os oes gennych ddiddordeb, anfonwch eich syniad at syniad@s4c.cymru erbyn 12:00 ar y 15/06/26 Byddwn yn cadarnhau derbyn y syniad drwy ebost.

Mae gwefan gynhyrchu S4C http://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/ yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol gan gynnwys gwybodaeth dechnegol, gytundebol a chyfleu, os oes cwestiwn am y broses gynhyrchu gennych.

Mae'n fwriad gan Guto Rhun, Comisiynydd Cynulleidfaoedd Ifanc ddewis rhestr fer erbyn diwedd Mehefin. Cedwir yr hawl i addasu'r amserlen a hysbysir ein bwriad drwy e-bost. Os byddwch yn llwyddiannus bydd angen i'r syniad gael ei roi ar system gomisiynu S4C – Cwmwl. Ni ddylid gwneud hyn cyn cael y gwahoddiad.

Edrychwn ymlaen yn fawr at dderbyn eich cynigion.

Cedwir yr hawl i beidio â chomisiynu unrhyw un o'r cynigion a ddaw i law.

**Call for Hansh ideas**

S4C is looking for new ideas for content to publish on Hansh. We want content that will inspire, amaze and make you smile. We're looking for contemporary content in a medium form series that will be published on YouTube Hansh

We are looking for creative ideas for series of looping videos for YouTube, aimed at young audiences.

The content should focus on creating atmosphere – for example:

- Dreamscapes
- Study and concentration videos
- Soft background music
- The feeling of “music playing in another room”
- A sense of Welsh content that is different to what is already available
- Hansh content - how to interweave Hansh faces and a sense of brand dissemination

The ideas should create an immersive, calm and comfortable watching experience, which helps people to relax, study or concentrate over a long period.

We are open to unique visual and audio ideas that appeal to young digital audiences and are suitable for YouTube.

We are keen to receive any ideas and are open to discussing lengths, but a minimum of four videos are expected to be included as part of the package.

All pitches will need to be in the form of a 'deck slide' including:

• Strong and clear title – No title, no commission

• A single line strapline

• A definite idea of tone and style. Who are your influences? Please provide examples and images / video / moodboard

• Some information about the key creative team and your document experience / links to previous work

• When applying, contractual implications on the content that will live unrestricted on YouTube should be considered

**Budget**

Depending on the content, we are looking at commissioning four videos of original content, five minutes each in length – which will be looped to create four one-hour videos. The value of the package is up to £30,000

**How to submit an idea?**

If you are interested, please send your idea to syniad@s4c.cymru by 12:00 on 15/06/26 We will confirm receipt of the idea by email.

The S4C production website http://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/ offers useful information including technical, contractual and communication information if you have a question about the production process.

Guto Rhun, Commissioner for Young Audiences will select a shortlist by the end of June 2026.

We reserve the right to modify the timetable and our intention will be notified by email. If you are successful the idea will need to be put on the S4C - Cwmwl commissioning system. This should not be done before receiving the invitation.

We look forward to receiving your proposals.

The right is reserved not to commission any of the proposals received.